
Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 44 Haf 2018



## Annwyl Gyd-aelodau,

***Newid hinsawdd***

Alla i byth â dweud ai newid hinsawdd sy'n gyfrifol ai peidio.

Ond bu tipyn o newid yn y tywydd rhwng ysgrifennu ar gyfer y rhifyn blaenorol o *Gair o'r Garn* a'r rhifyn presennol hwn.

Roedd hi'n bwrw eira trwm y bore hwnnw 'nôl ym mis Mawrth wrth i mi baratoi'r cyfarchiad hwnnw. Ac er yr oerfel, roeddwn yn ddigon hyderus i addo bod tywydd gwell ar y ffordd; y byddai grym y gwanwyn yn drech na'r oerfel; a buddugoliaeth Iesu Grist yn gryfach ac yn fwy gogoneddus na gafael angau.

Heddiw, wrth baratoi, gwireddwyd fy mhroffwydoliaeth!

Llanwyd y perthi gyda bywyd ir, tyfodd y gwair yn borthiant ac eginodd cnydau'r hydref.

Bellach, mae'r gwres yn llethol, y ddaear yn galed fel haearn. Yn wir, os na byddem yn annog y planhigion bychain a blannwyd gennym trwy eu dyfrio'n gyson fe fyddent wedi gwywo ers talwm. Nid oes ganddynt mo'r gwreiddiau dwfn i'w galluogi i oroesi.

Dacw'r dderwen fawr. Er syched y tir, rywsut mae ei gwreiddiau wedi treiddio i ddyfnderoedd na welwn, at ffynhonnau o ddŵr na allwn eu dychmygu na'u profi. Yng nghanol sychder haf, hyd yn oed os bydd rhwystr ar ddefnyddio pibau dŵr i ddyfrio'n gerddi, bydd y dderwen yn parhau i ddwyn ei ffrwyth, ac yn parhau i gynnig cysgod a lloches rhag tanbeidrwydd yr haul i greaduriaid y maes. Bydd yn parhau i sefyll yn dalog, yn dderwen gadarn pan fydd planhigion blodeuog, lliwgar a ffansi ein gerddi wedi hen drengi.

Duw a ŵyr gymaint fu'r newid yn yr hinsawdd ysbrydol yn ein gwlad (a thrwy'r byd Gorllewinol o ran hynny) yn ystod y genhedlaeth ddiwethaf. Gwelwyd digon o achosion oedd yn ymddangosiadol ffrwythlon a deiliog yn dirwyn i ben yn nhrymder y newid hinsawdd ysbrydol hwn.

Diau y bydd dwsinau o gapeli ac eglwysi eraill yn methu gan y sychder mawr yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Gadawodd y sychder ei ôl ar ein bröydd ni.

Cyfuniad o dristwch a diolchgarwch sydd yn ein calonnau wrth i ni geisio ymateb i'r bleidlais i uno cynulleidfaoedd y Babell, Dôl-y-bont, gyda'r gynulleidfa yn y Garn.

Diolchgarwch am y bendithion a brofwyd yng nghwmni'r Arglwydd yn y capel bach. Tristwch am fod yn rhaid cefnu ar feysydd bendithion ddoe.

Nid yw union fanylion yr uno wedi eu sefydlu eto. Gwyddom, er y bydd aelodau'r Babell yn glwyfedig wrth weld yr achos yno'n dirwyn i ben, y caiff pob un sy'n dewis ymuno yn y Garn groeso neilltuol.

Er i'r dderwen golli ei brigau a hefyd ambell gangen braff, ni pheidia'r goeden â bod yn dderwen! Ac er y bydd nifer o gapeli ac eglwysi eraill, yn anorfod bron, yn darfod yn ystod y blynyddoedd nesaf, ni fydd eglwys Iesu Grist wedi ei difa gan y colledion hyn. Bydd yn wahanol ei ffurf, yn wahanol ei siâp, ond yr un eglwys fydd hi. Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist ydyw!

Y mae gallu'r dderwen i oroesi ac i aildyfu yn perthyn i'w hanfod ei hun.

Ac y mae gallu eglwys Iesu Grist i ffrwytho mewn cenhedlaeth newydd yn sicr—mae hynny'n perthyn i'w hanfod ei hun.

Eglwys Iesu Grist ydyw! Nid yw ei llwyddiant yn dibynnu ar ennill pleidlais boblogaidd y byd. Rydyn ni wedi trio hynny – ac fe fethodd poblogrwydd ein capeli mewn dyddiau a fu â chynnal yr achos mewn hinsawdd newydd.

Nid ei phoblogrwydd, na'i maint, sy'n nodweddu'r dderwen. Y ffaith ei bod yn wahanol i'r binwydden feddal sy'n sicrhau ei bod yn goroesi ac yn ffynnu. Gobaith eglwys Iesu Grist yw fod gennym naratif gwahanol, gwerthoedd amgen, goleuni i'w adlewyrchu sy'n tarddu o galon Duw ei hun. Mae'n gryf, yn gadarn, yn sicr mewn byd lle mae negeseuon poblogaidd, er mor ymddangosiadol ddeniadol, mewn gwirionedd yn feddal ac yn ddisylwedd.

Saif eglwys Iesu Grist am mai Eglwys Iesu Grist ydyw. Y mae ei gwreiddiau wedi eu gosod yn nwfn ym mwriadau grasol Duw tuag at ei fyd. Ei gwreiddiau yw'r cyfryngau cudd sy'n dwyn dyfnion tragwyddol fendithion Duw i'w bywhau a'i chryfhau. Cwmni ydym sy'n dibynnu ar wir gymdeithas, gwir rannu profiad, cydgerdded, cyd-deithio, cydgamu ymlaen. Nid ei maint ond ei sylwedd sy'n nodweddu'r eglwys. Dim ond dau neu dri sy'n cyfarfod, ac Iesu Grist yn y canol, sydd ei angen arnom. Creadigaeth Duw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân yw'r eglwys. Nid pren deiliog yw ei symbol ond croes bren lle cusanodd cyfiawnder pur a hedd fyd euog ac anghenus.

Dyfodol eglwys Iesu Grist yw ei gwreiddiau a'r maeth sy'n cael ei sugno o ddwfn ffynhonnau gras. Dyma sy'n caniatáu i ni feddiannu'r hyder i fod yr hyn ydym mewn gwirionedd—yn wir Eglwys Iesu Grist heddiw.

*Watcyn James*

# Gwreiddiau

Wedi naw mis o gyfarfod yn rheolaidd daeth cyfarfodydd grŵp Gwreiddiau i ben dros fisoedd yr haf.

Wel, sôn am holi, a thrafod, a chwilio a phendroni wrth i ni geisio ailddarganfod ystyr Credo'r Apostolion. Ac mae digonedd o ddefnydd ar ôl ar gyfer y sesiwn newydd hefyd.



Carwn ddiolch i bawb a ddaeth yn gyson i'r cyfarfodydd, trwy law ac eira, drycin a thymestl yn ystod y misoedd hyn. Gwerthfawrogwn gwmni'n gilydd. Gwerthfawrogwn y cyfle i chwilio gyda'n gilydd i wreiddiau ein ffydd a chanfod ffordd o feddwl drwyddynt oedd yn fythol hen a pharhaol newydd, yn syml ar brydiau ond yn rhyfeddol o ddwfn yn eu heffeithiau ar ein deall a'n bywydau.

Fel y dywedwyd, seibiant dros dro, dros misoedd yr haf fydd yr egwyl hon. Ond dyma rag-hysbys o bwys. Gobeithiwn ailafael gyda'n gilydd wrth ein Gwreiddiau ar 27 Medi. Rhowch o yn eich dyddiadur. Rhowch fin ar eich pensil a dewch â'ch cwestiynau. Gallaf eich sicrhau y byddwch yn cael blas yng nghwmni'n gilydd yn holi a chwilio am y ffydd a roddwyd un waith ac am byth i'r saint. Ac o'r Gwreiddiau daw bywyd newydd ar gyfer tymor newydd!

*Watcyn James*

*Manylion Cyswllt y Gweinidog:*
*Y Parchedig Ddr R. Watcyn James,*
*Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ*
*01970 880615*
*ebost: watcynalowri@gmail.com*

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 9–11 Gorffennaf | Y Gymanfa Gyffredinol, Capel y Groes, Wrecsam yn cynnwys darlith gyhoeddus: 'Rhamantiaeth Hanesyddol a Gwleidyddiaeth Eglwysig yng Nghymru'r 19eg Ganrif' gan y Parch Wyn Morris dydd Mawrth, 10 Gorffennaf, am 11.45 o'r gloch |
| 22 Gorffennaf | Oedfa'r Ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog Capel Pen-llwyn am 10 o'r gloch |
| 2 Medi | Oedfa'r Ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch |
| 27 Medi | Y Grŵp Gwreiddiau'n ailddechrau dan arweiniad y Gweinidog Festri Capel y Garn, 10.15–11.30 o'r gloch |

Elusen yr ofalaeth am eleni yw Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch (HAHAV), a bydd casgliadau oedfaon yr ofalaeth yn cael eu cyflwyno i'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn.

Gweler hefyd: www.capelygarn.org; Twitter: @capelygarn

## *Ordeinio Blaenoriaid Newydd*

Nos Sadwrn, 16 Mehefin, mewn cyfarfod o Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro yng Nghapel Bwlch-gwynt, Tregaron, ordeiniwyd Miss Nia Evans a Mrs Janet Jones o Gapel Nasareth yn flaenoriaid newydd. Llongyfarchiadau a phob bendith i'r ddwy yn y gwaith.

## Agor y Llyfr – Eglwysi Ardal Aberystwyth

Daeth aelodau o Ofalaeth y Garn a Chapel y Morfa i'r cyfarfod agored a drefnwyd gan Meleri Cray, cydlynydd Agor y Llyfr yng Nghymru, yn Festri'r Morfa fis Medi diwethaf gyda'r bwriad o sefydlu tîm Agor y Llyfr yn ardal Aberystwyth. Cytunwyd i ffurfio un tîm fel ein bod yn gweithio ar y cyd ac yn rhannu adnoddau. Cafwyd cadarnhad oddi wrth yr Ysgol Gymraeg, Aberystwyth, ac Ysgol Rhydypennau y byddent yn ein croesawu i'r gwasanaeth boreol unwaith bob pythefnos, a phenderfynwyd ein bod yn dechrau ar y cynllun ar ôl y Pasg gan gyflwyno pedair stori o'r Testament Newydd tan yr haf a dechrau'r cynllun ym mis Medi gyda hanes y Creu.

Rydym yn gwerthfawrogi cymorth aelodau o'r eglwysi sydd wedi paratoi'r gwisgoedd a'r adnoddau gweledol. Erbyn hyn mae ugain o wirfoddolwyr ar ein rhestr, gan gynnwys rhai o eglwysi eraill, felly nid oes rhaid i bawb fynd bob tro. Mae ymateb yr ysgolion yn ardderchog ac mae'n wefr i ni fod yn rhan o addoliad yr ysgolion a gweld ymateb y plant. Mae'r canllawiau yn glir yn y Llawlyfr a phwysleisiwyd ar y cwrs mai adrodd stori yw ein gwaith gan ddefnyddio *Beibl Newydd y Storïwr* a'r cyflwyniad o'r Llawlyfr.

Wrth gyflwyno'r stori 'Y Storm ar y Llyn' derbyniwyd ymateb cadarnhaol oddi wrth bennaeth yr ysgol i'r myfyrdod ar ddiwedd y stori:

**Munud i Feddwl** Ydych chi'n pryderu am bethau weithiau? Gadewch i ni gau ein llygaid am funud a meddwl am y pethau sy'n gwneud i ni bryderu neu yn ein gwneud yn ofnus.

Nawr, fedrwch chi gofio beth wnaeth i chi beidio â bod yn ofnus?

**Gweddi**
Dduw annwyl, pan fyddwn yn bryderus neu'n ofnus a neb wrth law i siarad â ni, helpa ni i gofio dy fod tithau gyda ni ac nad ydym byth ar ein pennau ein hunain. Amen.


*Eleri Davies, Aberystwyth*



# Tudalen y Plant

Pysgotwyr oedd rhai o ffrindiau arbennig Iesu. Darllenwch yr hanes yn Luc, pennod 5, yna ysgrifennwch enwau dau frawd oedd yn ffrindiau i Iesu.

1 ____________________ 2 ________________________



Helpwch y pysgod i fynd drwy'r rhwyd ac allan i'r ochr arall. Yna, llanwch y bylchau yn yr adnod yma:

'Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch _ _ _ _ _ yn _ _ _ _ _ _ _ _ _ dynion.'

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes ysgol Sul, os dymunwch, erbyn **31 Gorffennaf.** Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i **Niamh Deakin,** Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

## *Newyddion Seion*

Fore Sul, 20 Mai, cynhaliwyd oedfa Cymorth Cristnogol yn Seion a Chinio Bara Caws yn dilyn. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan Elen Lewis, John Gwynn Jones ac Ina Tudno. Thema'r oedfa oedd 'Gyda'n gilydd rydym yn gryfach na'r stormydd' a chanolbwynt Cymorth Cristnogol eleni oedd ynysoedd Haiti. Adroddwyd hanes tri theulu oedd wedi llwyddo i fyw trwy drychineb storm anferthol Corwynt Mathew yn 2016. Serch hynny, dim ond llusgo byw a wna Marcelin a'i dair merch yn eu harddegau, Ketia, Linda a Kechna, ers y storm. Eu cartref yw cwt concrit 2 wrth 2 fetr, heb ddrws na ffenest iddo. Collodd ei eiddo i gyd yn y storm ac ni all fforddio bellach anfon y merched i ysgol. Tebyg yw hanes Jocelyn a'i theulu sy'n byw mewn tŷ bregus iawn o gynfas na all fyth wrthsefyll unrhyw storm na chorwynt a'i amodau byw yn enbydus o dlawd.

Ond stori wahanol iawn a gawn yn hanes Vilia a'i theulu. Yn dilyn daeargyn 2010 cawsant eu cartrefu mewn un o'r 700 o dai a godwyd gan Cymorth Cristnogol ac elusen arall sy'n cydweithio â hwy. Pan darodd Corwynt Mathew safodd y cyfan ond un o'r tai hyn, ac roedd Vilia a'i theulu yn ddiogel. Llocheswyd pum deg o bobl eraill yn ei chartref a chawsant gysgodi yno am rai dyddiau pellach. Cost adeiladu tŷ yw £215, a'n braint yw cael cyfrannu at y fenter hon.

Dyma ran o un o weddïau'r wythnos:

> Dduw cariadus, heddiw ymunwn â miloedd o rai eraill i
> gamu allan mewn cenhadaeth dros bobl dlotaf y byd.
> Fel y gweddïodd Iesu cyn anfon ei ddisgyblion allan,
> gweddïwn ninnau nawr y bydd ein geiriau a'n
> gweithredoedd yn dod â'th deyrnas yn agosach.



Yn dilyn y cinio dathlwyd pen-blwydd arbennig iawn un o aelodau ffyddlonaf yr Ysgol Sul a'r oedfaon, sef Mrs Megan Lloyd, Tyncoed, yn 99 mlwydd oed. Pleser yw gallu dweud ei bod yn fywiog iawn ei meddwl ac yn cyfrannu'n gyfoethog iawn i drafodaethau gwersi'r Ysgol Sul. Fe'i cyfarchwyd gan ein Bugail, y Parchedig Ddr Watcyn James, a braf oedd cael cwmni Lowri hefyd gyda ni. Coginiwyd y gacen pen-blwydd ddeniadol a blasus dros ben gan Olwen Jones, ac ymunodd pawb i ganu 'Pen-blwydd Hapus' gan ddymuno bendith a iechyd iddi eto i'r dyfodol.

*Ina Williams*

Mae ysgolion Sul yn cwrdd
yng Nghapel Seion,
yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor,
ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yng Nghapel y Garn.
Croeso cynnes i blant o bob oed
– holwch y Gweinidog am fanylion

## Pwyllgor y Tair Gofalaeth

Daeth Pwyllgor y Tair Gofalaeth i derfyn ei daith mewn cyfarfod yn Festri'r Garn, nos Iau, 24 Mai.

Yn 2013 mynegodd y Parch Wyn Morris i Bwyllgor Gofalaeth y Garn yr hoffai weld gweithgarwch dramatig o ryw fath yn datblygu yn rhan o weithgarwch y capeli oedd dan ei ofal, i ddenu egnïon a defnyddio talentau aelodau o bob oed. Gwahoddwyd Euros Lewis, Felin-fach, i ddod i gyfarfod â Phwyllgor yr Ofalaeth i drafod y posibiliadau. O'r cyfarfyddiad a'r trafodaethau hynny, a ninnau ar drothwy canmlwyddiant y Rhyfel Mawr, esgorwyd ar y syniad o Gofio a Myfyrio, ac o wneud hynny ar sail gydenwadol. Dyna sut a phryd y ganwyd Pwyllgor y Tair Gofalaeth.

Talodd y cadeirydd presennol, Llinos Dafis, deyrnged i waith tri swyddog cyntaf y Pwyllgor, sef Cadeirydd: Owen Jenkins, Ysgrifennydd: John Leeding, Trysorydd: Nia Evans, gan gyfeirio'n arbennig at y golled fawr ar farwolaeth ddisyfyd John Leeding. Diolchodd yn gynnes i Llinos Evans am gymryd at waith yr Ysgrifennydd. Nododd hefyd wasanaeth diarbed a gwerthfawr William Howells yn curadu'r arddangosfa ac Euros Lewis yn cyfarwyddo a chynhyrchu'r ddrama a'r ffilm.

Wrth ddiolch i aelodau'r pwyllgor i gyd am eu cefnogaeth nododd fod lle i ymfalchïo yn yr hyn sydd wedi ei gyflawni mewn pedair blynedd, sef:

| | |
|---|---|
| Tachwedd 2014: | Arddangosfa Cofio a Myfyrio<br>Drama *Cofia'n Gwlad*<br>Cyhoeddi'r llyfryn 'Cofio'r Rhyfel Mawr' |
| Chwefror 2016: | Cyngerdd 'Cofio Canrif' yng Nghapel y Garn<br>er budd ffoaduriaid |
| Tachwedd 2017: | Lansio Ffilm *Cofia'n Gwlad* yn Libanus, y Borth |
| Mai 2018: | Darlith Mererid Hopwood, 'Pensaernïaeth Waldo'<br>yn Festri Capel Horeb, Penrhyn-coch. |

Wrth gloi gweithgareddau'r Pwyllgor trosglwyddwyd £250 yr un i Gymdeithas y Cymod a Chymdeithas Waldo.



Mererid Hopwood ac Euros Lewis

Llinos Dafis
yn arwyddo
Llyfr Gwyn
Heddwch,
gyda Mererid
Hopwodd





Y Parch Watcyn James yn llongyfarch Ffion a Lowri Evans, Fronddêl, a fu'n cymryd rhan ym Marathon Cymru, Llanelli, ar 15 Ebrill, er budd Epilepsy Action. Rhannodd Ffion ei phrofiadau mewn gwasanaeth arbennig ym Methlehem, a gwnaed casgliad i gefnogi'r elusen.



## Gorffennaf

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

**1** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch John Roberts

**8** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

**15** Oedfa gymun am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

**22** Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
Capel Pen-llwyn am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch

**29** Oedfa dan ofal yr aelodau am 10 o'r gloch

## Awst

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T Jenkins / Ann Jones*

**5** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa

**12** Oedfa dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd am 10 o'r gloch

**19** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa

**26** Oedfa dan arweiniad Miss Beti Griffiths am 10 o'r gloch

## *Capel y Garn*

Llongyfarchiadau calonnog:

- i Ffion Evans ar gael ei dewis i chwarae i Fand Pres Ieuenctid Cymru;
- i Osian Penri ar ei benodiad yn gofrestrydd arbenigol mewn llawfeddygaeth yn Neoniaeth Cymru. Bydd yn gweithio yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd.
- i Margaret ac Ambrose Roberts a Margaret ac Alun Rees, a fu'n dathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

### *Trefnu Cyfarfodydd yn y Garn*

Os byddwch am drefnu i ddefnyddio'r capel neu'r festri, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Garn, Alan Wynne Jones:
ffôn 01970 828163; ebost: alan.jones212@btinternet.com.
Diolch am eich cydweithrediad.

**Rhestr Flodau'r Garn**

Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer rhai o'r Suliau gwag, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda.
Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

| **Gorffennaf** | **Awst** | **Medi** |
|---|---|---|
| **1** Elen Evans | **5** Noddfa | **2** Rehoboth |
| **8** | **12** Gaerwen | **9** |
| **15** | **19** Noddfa | **16** |
| **22** Pen-llwyn | **26** | **23** |
| **29** | | **30** Eryl |

# Medi

*Blaenor y Mis: Eddie T Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Alan Wynne Jones*

**2** Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch

**9** Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

14 Swper Cynhaeaf y Garn
Ysgoldy Bethlehem, Llandre, am 6 o'r gloch

**16** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths

**23** Oedfa dan arweiniad Mr Paul Bryant-Quinn
am 10 o'r gloch

27 Y Grŵp Gwreiddiau'n ailddechrau
dan arweiniad y Gweinidog
Festri Capel y Garn, 10.15–11.30 o'r gloch

**30** Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

***Bethlehem, Llandre***

Os byddwch am drefnu i logi Bethlehem, cysylltwch â:
Mrs Nans Morgan, Dolgwiail, Llandre; rhif ffôn: 828487;
ebost: nansmorgan@btinternet.com.

Diolch i Erddyn a Gwenda James, Lluarth, am flynyddoedd
o wasanaeth yn cyflawni'r gwaith yma.

### *Porthor*

Ei weld fel milwr o'r Rhyfel Byd Cyntaf
   Ar ei ddyletswydd â'i lygaid llym,
A chudyn o wallt dan fargod ei gapan
   Fel gweddill o eira y Traws ar y drum.

Awn mewn i ystafell echdoe y teulu
   Sy'n drwm o dristwch y genedl o hyd,
A chlandro ym mysg atgofion y celfi
   Heb gyffwrdd ar ddim a fu yno cyhyd.

Down allan i'r gwynt 'rôl diosg ein hiraeth
   Gyda'r wynebau mewn fframwaith du,
Yntau'n tristáu wrth estyn yr allwedd
   A chloi ei hen aelwyd sy heddiw ond tŷ.

*Vernon Jones*




(Cyfansoddwyd y gerdd uchod wedi ymweld â'r Ysgwrn, diwrnod gwibdaith Capel y Garn, 9 Gorffennaf 2017. Y delyneg fuddugol yn Eisteddfod Llambed y mis Awst canlynol).

Llongyfarchiadau, Vernon, a hefyd ar ennill cystadleuaeth y delyneg yn Eisteddfod Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid, eleni.



Cymdeithas Chwiorydd y Garn yn mwynhau'r heulwen tu allan i gaffi Crefftau Pennau yn dilyn eu cinio i gloi gweithgareddau'r tymor. Diolch arbennig i Llinos Dafis (Cadeirydd) a Shân Hayward (ysgrifennydd) am eu gwaith diwyd.

Bydd *Llinynnau*, nofel newydd gan Llinos Iorwerth Dafis, yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf.
Bydd yr elw o werthu'r nofel yn mynd i helpu ffoaduriaid rhyfel.



# Ennyd i feddwl

Eisteddwch, os gwelwch yn dda.

Eisteddwch yn dawel am foment.

Eisteddwch.

Ac yn eich dychymyg tynnwch lun cylch gwyn o amgylch eich cadair.

Yn awr, beth am weddïo y bydd Duw yn gwneud ei gariad yn fyw oddi mewn i'r cylch hwn:

> Arglwydd da, fe ddywedaist wrth dy ddisgyblion, 'Hebof fi ni allwch chi wneud dim.'
>
> Arglwydd Iesu, fe welaf fod hyn yn wir yn fy mhrofiad fy hun. Dydw i ddim yn medru gorfodi fy hun i ymddiried mwy, i gredu mwy, i garu mwy, i dystio mwy, i obeithio mwy, i faddau mwy, i edifarhau mwy am fy mhechodau.
>
> Arglwydd Iesu, pan edrychaf ar dy eglwys yn ein gwlad rwy'n cyffesu i ti, er cymaint oedd ein hymdrechion a'n gweithgareddau, mai colli tir a wnaethom fel dy eglwys yn ein tir.
>
> Maddau i ni os ydym ar unrhyw adeg wedi rhoi ein capel yn lle Crist, ein gweithgaredd yn lle dy waith di, ein hagenda ni yn lle ufudd-dod i'th orchmynion di.

Arglwydd da, trugarha wrthym. Am ba reswm bynnag, daethom i sylweddoli yn ein cenhedlaeth ni wirionedd dy air. Yn wir, hebot ti allwn ni wneud dim sy'n adnewyddol, yn adfywiol, yn effeithiol i'n cynulleidfaoedd, ein teuluoedd, ein gwlad.

Arglwydd, a wnei di adnewyddu dy waith o fewn y cylch hwn. A wnei di lenwi'r cylch yma gyda'th Ysbryd Glân? Os na alla i wneud dim i newid fy nghyflwr, a wnei di sy'n llawn gras wneud dy waith yn fyw, yn ffres, yn fyrlymus, o fewn y cylch yma? Arglwydd, a wnei di lenwi'r cylch hwn gyda'th oleuni a'th bresenoldeb – dy fendith di dy hun.

Dwi'n gweddïo hyn yn enw Iesu Grist. Amen.

Rŵan, meddyliwch am ble rydych yn eistedd yn y capel. Yn eich dychymyg, meddyliwch am bobl sydd yn eistedd gyda chi, yn union o'ch cwmpas. Tynnwch gylch yn eich dychymyg o'u cwmpas.
Yn awr, beth am weddïo'r weddi uchod drostynt hwy?

Ac yn awr, tynnwch gylch o amgylch y capel cyfan.
Beth am weddïo'r weddi dros eich cynulleidfa gyfan?

Yn awr, tynnwch gylch yn eich dychymyg o gwmpas eich teulu a gweddïo'r un weddi drostynt hwy.

Beth am dynnu cylch o amgylch ein pentref?
A gweddïo'r weddi uchod dros eich cylch chi.

Carwn yn eich gwahodd i wneud hyn bob dydd yn ystod misoedd yr haf gan ddisgwyl adnewyddiad Duw yn y cylchoedd hyn i gyd!

*Watcyn James*

## *Pen-llwyn*

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, dydd Sul, 13 Mai. Yn oedfa'r bore, plant y gwahanol Ysgolion Sul oedd yng ngofal yr emynau, a'r emyn a ddewiswyd i Ben-llwyn oedd "Cariad Crist sydd yn rhyfeddol". Er i ryw ddeg plentyn ymarfer y dasg, yn anffodus dim ond Tomos, Morgan ac Iestyn a welodd eu ffordd yn glir i fynychu ar y diwrnod a gwnaethant eu gwaith yn raenus dros ben. Mwynhawyd y canu yn fawr dan arweiniad Mrs Llio Penri a hefyd y sgwrs a'r wers oedd yn deillio ohoni gan y Parch Eifion Roberts. Cafwyd diod a chacen i gloi'r gweithgaredd drwy garedigrwydd aelodau'r Morfa – bore gwerth chweil yn wir.

Diolch i holl aelodau'r Ysgol Sul am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at Ŵyl yr Ysgol Sul sydd i'w chynnal ar 24 Mehefin yn y Morlan. Croeso cynnes i bob un.

*Heulwen Lewis*



Diolch i Llio Penri, yr arweinydd; Mary Jones Morris, y cyfeilydd, a'r Parch Eifion Roberts am ei neges amserol i'r plant

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd yn festri capel Rehoboth brynhawn Mawrth, 13 Mawrth, a'r wraig wadd oedd Delyth Morris Jones, Tŷ Mawr, Ponterwyd. Teitl ei sgwrs oedd 'Llyfrau ar fy silff' a daeth â dau focs o lyfrau gyda hi ar wahanol bynciau, megis llyfr o luniau blodau a barddoniaeth, hen lyfrau coginio, mapiau, llyfr emynau a Beiblau'r teulu, ac adroddodd stori neu hanesyn diddorol am bob un. Roedd pawb wedi mwynhau ei chyflwyniad yn fawr iawn, a diolchwyd i Ann Jenkins ac Ann Jones am baratoi'r te a'r cacennau ar y diwedd.

Daeth y tymor i ben am eleni brynhawn Mawrth, 10 Ebrill, pan aeth yr aelodau i fwynhau te prynhawn yn Libanus 1877, y Borth. Roedd y tywydd yn braf, a chafwyd prynhawn dymunol wrth i bawb sgwrsio a mwynhau'r lluniaeth.

*Carys Briddon*




Cymdeithas Chwiorydd Rehoboth tu allan i Libanus, y Borth

**Nofel hanesyddol newydd am gymwynaswr ein crefydd a'n hiaith**

Nid tasg hawdd yw ysgrifennu nofel, ac mae llunio nofel hanesyddol dda yn anos fyth. Ar ben y gofynion creadigol arferol, rhaid i awdur gwaith o'r fath ymdrwytho yn hanes cyfnod er mwyn cyfleu ei naws a'i arferion a'i awyrgylch ac osgoi camau gwag a fyddai'n tanseilio hygrededd. Nid pob nofel hanesyddol o bell, bell ffordd sy'n llwyddo o ran y gofynion sylfaenol hyn. Ond mae'r nofel newydd *Sgythia*, gan y diweddar Gwynn ap Gwilym—fe fu farw'n annhymig yn 2016—yn cyflawni'r gofynion sylfaenol, a llawer iawn mwy, yn fuddugoliaethus.

Prif gymeriad y nofel yw Dr John Dafis o Fallwyd (?1567–1644), un o gymwynaswyr mawr crefydd Cymru a'r iaith Gymraeg. Yn ŵr ifanc bu'n cynorthwyo William Morgan yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant gyda'r gwaith o gyfieithu'r Beibl, ac ef a fu'n bennaf cyfrifol am ddiwygio Beibl Morgan a'i gyhoeddi yn argraffiad 1620. Er mai fel Beibl William Morgan y tueddwn i feddwl am y Beibl hwnnw—yr un oedd yn gyfarwydd inni nes cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd yn 1988—ni ddylid anghofio am waith hollbwysig John Dafis yn caboli a chywreinio a rhoi graen llenyddol ychwanegol ar waith gwreiddiol Morgan. Yn ogystal â bod yn ysgolhaig Beiblaidd, yr oedd John Dafis yn ysgolhaig Cymraeg o fri. Ystyrir ei ramadeg Cymraeg (1621) y gramadeg Cymraeg gorau cyn cyhoeddi gramadeg John Morris-Jones yn 1913, ac mae ei eiriadur (Cymraeg–Lladin a Lladin–Cymraeg) a gyhoeddwyd yn 1632 yn waith y bu ysgolheigion a geiriadurwyr Cymraeg yn troi ato ar hyd y canrifoedd.

Gellid meddwl y byddai hanes cymharol ddigyffro ysgolhaig fel John Dafis yn destun anaddawol a diflas ar gyfer nofel. Ond nid felly y mae oherwydd gallu rhyfeddol Gwynn ap Gwilym i ddychmygu cyfnod a byd John Dafis. Dechreua'r nofel gyda phenodi Dafis—mab i wehydd o Lanferres ar gyrion Dyffryn Clwyd—gan William Morgan ychydig cyn marw'r esgob yn 1604 yn rheithor plwyf diarffordd Mallwyd yng nghwmwd Mawddwy. Mawddwy yw Sgythia teitl y nofel a John Dafis ei hun, mewn llythyr at gyfaill o Sais, a'i disgrifiodd felly: dyma'r 'wlad wyllt a oedd i'r Groegiaid diwylliedig gynt yn ymgorfforiad o bob anwaredd ac ysgelerder'. Cofier mai dyma un o ardaloedd mwyaf didoreth ac aflywodraethus Cymru gynt: Mawddwy, wrth gwrs, oedd cynefin y Gwylliaid Cochion enwog. Yr oedd Siân, gwraig John Dafis, yn wyres i'r Barwn Lewis Owen, gelyn anghymodlon y Gwylliaid a ddialodd arno drwy ei lofruddio ger Mallwyd yn 1555.




Cyflea'r nofel yn grefftus y tensiynau y bu'n rhaid i'r rheithor a'i briod eu hwynebu oherwydd y gorffennol anffodus hwnnw. Cyfleir yn gelfydd hefyd y tensiwn ym mhriodas John Dafis a'i wraig, merch i deulu uchelwrol o Ddyffryn Clwyd, y bu'n anodd iddi dygymod â byw mewn lle mor bell-o-bobman ac ansoffistigedig â Mallwyd, tensiwn yr ychwanegwyd ato gan na fu i blant oroesi o'r briodas. Yr oedd Siân yn chwaer i Gwen, gwraig Richard Parry, esgob Llanelwy, a dyna ffynhonnell mwy o densiwn eto, gan i Richard Parry gymryd y clod am ddiwygio Beibl William Morgan er y gwyddys bellach mai John Dafis a fu'n bennaf cyfrifol am y gwaith. Richard Parry, a bortreadir yma fel gŵr pur ddigydwybod, yw un o ddau brif ddihiryn y nofel; archesgob yw'r ail archddihiryn, sef yr anghynnes William Laud, Archesgob Caer-gaint, yr oedd ei ddiwinyddiaeth ucheleglwysig yn anghydnaws â daliadau John Dafis.

Ymhlith llu is-gymeriadau'r nofel y mae rhai o Gymry enwog eraill y cyfnod, gwŷr fel y cyfieithydd a'r emynydd ('Tyrd, Ysbryd Glân i'n c'lonnau ni') Rowland Fychan o Gaer-gai, Robert Fychan o'r Hengwrt, ac Edmwnd Prys, awdur y Salmau Cân yr hebryngwyd ei waith drwy'r wasg gan John Dafis fel atodiad i Lyfr Gweddi Gyffredin 1621. Y mae'r modd y cafodd hanes y gwŷr hyn ei weu i mewn i blot y nofel yn gelfydd iawn ac yn codi cwestiynau diddorol am eu cyd-ymwneud â'i gilydd nid yn unig yng nghyswllt ffuglennol y nofel ond hefyd ym mywyd 'go iawn' eu dydd a'u cyfnod. Ond yn ogystal â chymeriadau fel hyn mae Mallwyd a chwmwd Mawddwy, y dirwedd wyllt a'r trigolion, yn wreng a bonedd—gyda'u rhagoriaethau a'u ffaeleddau (mae rhai ohonynt yn ofergoelus, anwybodus, a dichellgar)—yn rhan o wead cyfoethog y gwaith. A llwyfan canolog i ddigwyddiadau'r nofel yw Rheithordy Mallwyd, adeilad a godwyd gan John Dafis ei hun ac y bu awdur y nofel—a fu'n Rheithor Mallwyd—yn byw ynddo ei hunan. Mae ei adnabyddiaeth ddofn o dir a daear Mawddwy a'r modd y mae'n cyfleu naws a blas y fro mewn Cymraeg coeth sy'n hyfrydwch pur i'w ddarllen yn ychwanegu haen o argyhoeddiad i'r nofel.

Nid yn unig y mae *Sgythia* yn un o nofelau hanesyddol gorau un y Gymraeg, ond credaf nad gormodiaith fyddai dadlau ei bod—o ran ei huchelgais a'i chyflawniad cyfoethog—yn rheng flaenaf un nofelau Cymraeg yn gyffredinol. Tristwch o'r mwyaf yw na fu i'w hawdur galluog fyw i weld ei chyhoeddi. Ai dyma 'Lyfr y Flwyddyn' 2018 tybed?

*Gruffydd Aled Williams*

## Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De



Daeth tymor Mrs Ina Williams fel Llywydd Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De i ben gyda chyfarfodydd llwyddiannus iawn yng Nghapel Bwlch-gwynt, Tregaron, ar 17 Mai.

Bu cynulleidfa niferus yn gwrando ar ddwy siaradwraig arbennig, sef Dr Menna Machreth Llwyd a'r Athro Mari Lloyd Williams. Seiliodd Menna ei hanerchiad ar hanes Iesu a'r Wraig o Samaria, a rhoddodd esiamplau hefyd o ferched ein dyddiau ni y mae eu bywydau wedi cael eu trawsnewid wrth ddod wyneb yn wyneb ag Iesu. Yng nghyfarfod yr hwyr, amlinellodd Mari y gwaith rhyfeddol sy'n cael ei wneud yng nghapel Waungoleugoed, Llanelwy – capel bychan o ran nifer yr aelodau, ond eglwys sy'n rhoi gwasanaeth amhrisiadwy drwy ddarparu gofal i henoed bregus a rhai sy'n dioddef o gyflyrau hirdymor. Dau gyfarfod ysbrydoledig yn wir – a braint oedd cael bod yno.

***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Janet Jones, Nasareth

*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE

(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **9 Medi:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☽01970 828026
dewinerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☽01970 828662
marian_hughes@btinternet.com